*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 593 (Cy. 134)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *12 Mehefin 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *15 Mehefin 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *9 Gorffennaf 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 77(1) a (2) a 90(3) o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008(**1**), a pharagraff 1 o Atodlen 6 iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020.

(2) Deuant i rym ar 9 Gorffennaf 2020.

**Diwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010(**2**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn Atodlen 1, ym mharagraff 1(1A), yn lle "8 Gorffennaf 2020" rhodder "31 Rhagfyr 2020".

*Hannah Blythyn*
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol o dan awdurdod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

12 Mehefin 2020

(**1**) 2008 p. 27. Yn rhinwedd adran 77(3)(b) o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol at ddiben gwneud rheoliadau o dan Atodlen 6 i'r Ddeddf honno. Mae diwygiadau i adran 77 ac Atodlen 6 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 2010/2880 (Cy. 238), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/414 (Cy. 89); mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 ac maent yn diwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 (O.S. 2010/2880 (Cy. 238)) ("Rheoliadau 2010").

Mae Rheoliadau 2010, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol, yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr nwyddau sy'n cyflenwi bagiau siopa untro at ddiben caniatáu i'r nwyddau hynny gael eu cludo ymaith neu eu danfon, godi tâl am bob bag a gyflenwir.

Mae bagiau siopa untro a ddefnyddir i ddanfon neu gasglu nwyddau ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i esemptiad dros dro rhag y tâl. Mae cyfnod yr esemptiad dros dro wedi ei nodi ym mharagraff 1(1A) o Atodlen 1 i Reoliadau 2010. Daw'r cyfnod esemptio presennol i ben ar 8 Gorffennaf 2020.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 (esemptiadau) i Reoliadau 2010 drwy estyn cyfnod yr esemptiad hyd 31 Rhagfyr 2020.

Diben yr esemptiad dros dro yw lliniaru, cyhyd ag y bo modd, y risg o drosglwyddo feirws COVID-19 (coronafeirws), drwy systemau danfon a chasglu, a chynyddu effeithlonrwydd systemau danfon, drwy ddefnyddio bagiau siopa untro i gludo nwyddau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Is-adran Ansawdd yr Amgylchedd, Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.